YSGOL ABERCONWY

CYLCHLYTHYR I RIENI

Hydref 2026

MAE POB DIWRNOD YN CYFRIF!

Mae presenoldeb da yn hanfodol er mwyn helpu disgyblion i gyflawni eu potensial, meithrin cyfeillgarwch a manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i ddysgu. Llongyfarchiadau mawr i'n disgyblion Blwyddyn 7, sydd wedi cael dechrau gwych i'r flwyddyn gyda phresenoldeb trawiadol o 95.5% yr hanner tymor yma, gan gyrraedd targed Llywodraeth Cymru! Yn fwy cyffrous fyth, mae 115 o ddisgyblion Blwyddyn 7 wedi cynnal presenoldeb o 100% hyd yma! Da iawn, Blwyddyn 7! Daliwch ati gyda'r gwaith gwych a chofiwch fod pob diwrnod yn yr ysgol yn gwneud gwahaniaeth.

MAE PRYDLONDEB YN BWYSIG!

Mae'r rhan fwyaf o'n disgyblion yn gwneud gwaith rhagorol o gyrraedd yr ysgol ar amser ac yn deall pwysigrwydd prydlondeb. Fodd bynnag, mae angen gweld gwelliant pellach y tymor nesaf, yn enwedig o ran cyrraedd ar amser ar gyfer cofrestru yn y bore a symud yn brydlon rhwng gwersi. Mae cyrraedd ar amser yn sicrhau nad yw disgyblion yn colli gwybodaeth bwysig, cyfleoedd dysgu nac amser gwerthfawr gyda'u tiwtor dosbarth. Diolch am eich cefnogaeth barhaus i'n helpu i wneud prydlondeb yn arferiad cadarnhaol i bob disgybl.

HER PRESENOLDEB 10 DIWRNOD MIS HYDREF

Llongyfarchiadau mawr i Blwyddyn 7-9 am gymryd rhan yn ein Her Presenoldeb 10 Diwrnod mis Hydref! Gyda'r ffliw yn effeithio ar rai disgyblion, roedd hi'n gyfnod heriol, ond cafwyd rhai cyflawniadau gwych. Llongyfarchiadau i 9DC, a enillodd y tlws am y Gwelliant Mwyaf mewn Presenoldeb, ac i 7HC, a enillodd y tlws am y Presenoldeb Uchaf, gan gynnal y presenoldeb gorau drwy gydol y tymor hyd yma! Llongyfarchiadau i'r ddau ddosbarth ac i Dr Rugen-Hankey a Mrs Dexter. Nid yw'r gystadleuaeth drosodd eto! Bydd ein her presenoldeb nesaf yn dechrau ar ôl hanner tymor, gan roi cyfle newydd i bawb wella eu presenoldeb ac ennill y tlysau. Da iawn, bawb!

MAE PRESENOLDEB YN BWYSIG – EIN TARGED YW 95%!

Ein targed ar gyfer pob disgybl yw presenoldeb o 95% o leiaf. Mae hyn yn caniatáu tua naw diwrnod o absenoldeb dros y flwyddyn ysgol ar gyfer salwch anochel, fel peswch ac annwyd, ac apwyntiadau hanfodol na ellir eu trefnu y tu allan i oriau ysgol. Fodd bynnag, pan fydd disgyblion yn colli 19 diwrnod neu fwy o'r ysgol, cânt eu dosbarthu fel disgyblion sy'n absennol yn barhaus, a gall hyn gael effaith sylweddol ar eu dysgu, eu cynnydd a'u cyfeillgarwch.

Ers dechrau'r flwyddyn academaidd hon, mae dros 250 o ddiwrnodau ysgol eisoes wedi'u colli oherwydd gwyliau teuluol yn ystod y tymor. Cofiwch na all y Pennaeth awdurdodi'r rhan fwyaf o wyliau a gymerir yn ystod y tymor, a gall yr absenoldebau hyn ddefnyddio cyfran sylweddol o'r diwrnodau y gall plentyn eu colli'n gyflym, wrth gynnal presenoldeb da.

Os ydych yn cael anawsterau wrth sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl. Rydym yma i wrando, cydweithio â chi a darparu cymorth i helpu i wella presenoldeb cyn iddo ddod yn bryder mwy difrifol. Drwy gydweithio, gallwn helpu pob disgybl i wneud y gorau o'i amser yn yr ysgol.

NODYN I'CH ATGOFFA AM WISG YSGOL

Rydym wedi cael gwybod gan ein cyflenwyr gwisg ysgol y dylai pob eitem fod ar gael mewn stoc eto dros hanner tymor. Felly, rydym yn disgwyl i bob disgybl ddychwelyd i'r ysgol ar ôl yr egwyl yn gwisgo'r wisg ysgol gywir. Cofiwch nad yw legins du yn rhan o'n gwisg ysgol a dim ond esgidiau ymarfer du plaen a ganiateir. Gofynnwn i rieni a gofalwyr sicrhau bod gan ddisgyblion y wisg ysgol a'r esgidiau cywir yn barod ar gyfer dychwelyd i'r ysgol. Diolch am eich cefnogaeth barhaus i sicrhau bod disgyblion yn gwisgo'n daclus, yn barod i ddysgu ac yn cynnal y disgwyliadau a'r safonau uchel sydd gennym ar draws yr ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi eich cydweithrediad.

https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/school-uniform/

TAITH BLWYDDYN 7 I LAN LLYN

Yn ddiweddar, cafodd ein disgyblion Blwyddyn 7 daith i Lan Llyn, lle cawsant gyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyffrous, datblygu eu sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu, a meithrin cyfeillgarwch gyda'u cyd-ddisgyblion. Mae profiadau fel hyn yn ffordd wych o feithrin hyder, annibyniaeth a gwydnwch, wrth greu atgofion parhaol. Da iawn, Flwyddyn 7, am fanteisio ar y profiad a gwneud y gorau o'r cyfle gwych hwn!

ARHOLIADAU

Gweler y Llyfryn Arholiadau newydd i Ddisgyblion ar gyfer 2026-2027 a'r amserlenni Arholiadau diweddaraf ar ein gwefan yma:

https://www.aberconwy.conwy.sch.uk/cy/examinations-and-testing/

ADOLYGU DROS HANNER TYMOR

TGAU Saesneg a Mathemateg

Paratowch ar gyfer eich arholiadau ar 5 ac 11 Tachwedd

MATHEMATEG
- Dydd Llun 26 Hydref
- 9:30 y bore–12:00 hanner dydd
- Haen Uwch – Set 1
- Miss Dexter

MATHEMATEG
- Dydd Mawrth 27 Hydref
- 9:30 y bore–12:00 hanner dydd
- Haen Uwch – Set 2
- Miss Youlden

MATHEMATEG
- Dydd Iau 29 Hydref
- 9:30 y bore–12:00 hanner dydd
- Haen Sylfaenol – Setiau 3 a 4
  Hefyd, unrhyw ddisgyblion a aeth ar y daith i Sisili
- Mr Simpson

SAESNEG
- Dydd Iau 29 Hydref
- 1:00–3:50 y prynhawn
- Disgyblion sy'n paratoi ar gyfer yr arholiad Saesneg
- Mrs Murphy

MAE POB SESIWN ADOLYGU YN CYFRIF!
Anogwch eich plentyn i fynychu—gall adolygu â ffocws nawr feithrin hyder, cryfhau dealltwriaeth a gwneud gwahaniaeth go iawn ar ddiwrnod yr arholiad.

DIGWYDDIADAU I DDOD

Dydd Gwener 23 Hydref 2026 – Diwrnod Olaf yr Hanner Tymor

Dydd Llun 2 Tachwedd 2026 – Disgyblion yn Dychwelyd i'r Ysgol

Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2026 – Noson Rieni Blwyddyn 9

Dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2026 – Noson Agored y Chweched Dosbarth

Dydd Gwener 18 Rhagfyr 2026 – Diwrnod Olaf y Tymor Gwyliau'r Nadolig

ARWEINWYR DIOGELU

Swyddog Diogelu Dynodedig:
Medwen.Brookes@aberconwy.conwy.sch.uk

Person Diogelu Dynodedig:
beth.young@aberconwy.conwy.sch.uk

Mentor Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal:
sandra.lowe@aberconwy.conwy.sch.uk

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH BARHAUS!